

Ffynnu

Eich cynllun, eich llais



BYWYD GO IAWN

Mae Jake ar y ffordd i'r fyddin

Y GWIR AM GARTREF

Lle i fyw a phwy a all helpu

YN Y RHIFYN HWN

FELLY, BETH YW CYNLLUN LLWYBR

A sut i sicrhau ei fod yn dweud beth mae arnoch ei eisiau

Fe ofynnoch chi, fe atebom ninnau

Eich problemau wedi'u datrys gan Matt

Y Rhwydwaith Maethu

Rhestr wirio'ch cynllun llwybr

10 cwestiwn i'ch helpu ar eich hynt



Yr holl wybodaeth ichi...

YN Y RHIFYN HWN O *Ffynnu* ...

Jake yn gorymdeithio

Ac mae'n dweud wrthym sut mae'i gynllun llwybr wedi'i helpu

3

Felly, beth yw cynllun llwybr?

Cwestiynau 'beth', 'pa bryd' a 'sut' yn ymwneud â chynllunio llwybr. Eich cynllun chi ydy o, meddiannwch o!

4

Gofynnwch i Matt

Mae Matt yn ei ôl gyda'r atebion i'ch cwestiynau am gynllunio llwybr.

6

Y gwir am gartref

Mae gadael cartref yn gam mawr. Gosodwn eich opsiynau ichi gan roi cynghorion gwych ichi, hefyd.

8

Mae'r cwbl yn ymwneud â hawliau

Mae Pennaeth Gwasanaethau Plant yn dweud wrthym pam mae cael cynllun llwybr yn bwysig.

9

Rhestr wirio'ch cynllun llwybr

10 cwestiwn i'w gofyn i'ch hun i sicrhau bod eich cynllun yn iawn i chi.

10

Helô

Croeso i Ffynnu arall, a'r tro hwn down â chynghorion arbenigol a phrofiadau bywyd go iawn ichi am eich cynllun llwybr. Dyma'r ddogfen sy'n mynd â lle'ch cynllun gofal a chymorth. Mae'n amlinellu sut y bydd yr awdurdod lleol a'r gwasanaethau plant yn eich helpu i ystyried yr opsiynau o baratoi ar gyfer ymadael â gofal a darparu'r cymorth y mae arnoch ei angen, fel y gallwch wireddu'ch gobeithion a'ch breuddwydion wrth ichi ddod yn oedolyn. Beth a allai fod yn bwysicach na hynny?

Er gwaethaf y ffaith bod y byd yn ymddangos fel petai yn ei unfan dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'ch bywydau wedi dal i fynd ymlaen, ac mae'r rhifyn hwn o Ffynnu yn ymwneud â sicrhau y gwrandewir ar eich syniadau, pryderon, gobeithion, barn a safbwyntiau ynglŷn â beth mae arnoch ei eisiau wrth ichi ymadael â gofal. Eich bywyd chi ydyw, ontê?

I rai ohonoch, gallai ymadael â gofal ymddangos yn amser MAITH i ffwrdd, ond nid yw hi byth yn rhy gynnar dechrau meddwl am y dyfodol, a gall cynllun llwybr eich helpu i wneud hynny.

Diolch am ddarllen - tan y tro nesaf!

Ffynnu xxx

O.N.: Mae yna lwythi o rifynnau o Ffynnu ar-lein gyda chynghorion am bob mathau o bethau. Canfyddwch nhw yn bit.ly/TFNThrive.

Cymeradwyaeth fawr i ...

Fforwm Gofal Pobl Ifanc Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru, Daniel Sinclair, Stuart Khokhar ac Alun Richards. Heb eich cyfraniadau chi, ni allem fod wedi creu'r cylchgrawn hwn. Diolch!

Gyda llaw, os hoffech ddylanwadu ar yr hyn a wnawn yma yn Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru ac ar yr hyn a gaiff ei gynnwys yn Ffynnu, gallech ymuno â'r fforwm hefyd. Anfonwch e-bost at **charlotte.wooders@fostering.net** i ganfod mwy o wybodaeth.

Y Rhwydwaith Maethu



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

cysylltwch â Ni

Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru

33, Heol y Gadeirlan,
Caerdydd CF11 9HB
029 2044 0940

Golygydd: Maria Boffey
maria.boffey@fostering.net

Delweddau: SolStock via Getty Images / Todd Warnock / DigitalVision via Getty Images; Daisy-Daisy / iStock / Getty Images Plus via Getty Images; Sneksy / iStock / Getty Images Plus via Getty Images; John Howard / Photodisc via Getty Images; Rawpixel / iStock / Getty Images Plus via Getty Images; shadrin_andrey / iStock / Getty Images Plus via Getty Images; JackF / iStock / Getty Images Plus via Getty Images; Creatas Images / Creatas / Getty Images Plus via Getty Images

Bywyd go iawn:

Mae Jake yn gorymdeithio i lwyddiant.

Mae Jake, 17 oed, yn aelod o Fforwm Gofal Pobl Ifanc Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru, ac mae ar fin gwasanaethu'i wlad drwy ymuno â'r fyddin. Mae yna fân helbulon wedi bod ar y daith ond mae Jake yn dweud wrthym sut mae'i gynllun llwybr - ynghyd â llwyth o waith caled a chefnogaeth - wedi'i roi ar ben ffordd i lwyddiant.

Helô, Jake! Dywedwch ychydig amdanoch eich hun.

Jake ydw i, rwyf yn 17 oed ac rwyf ar hyn o bryd mewn Coleg Paratoi Milwrol yn aros i ymuno â'r Gwarchodlu Cymreig. Fy mwriad yw aros yn y fyddin am o leiaf bedair blynedd ac wedyn efallai trosglwyddo i'r 'paras' neu wneud cwrs ar gyfer swyddogion. Hoffwn hefyd wneud cwrs peirianneg, fel bod gen i swydd pan fyddaf yn ymadael â'r fyddin.

Rwyf wedi gweddnewid fy mywyd yn llwyr yn y pedair blynedd diwethaf ers imi fod yn byw gyda fy ngofalwyr maeth. I ddechrau, roeddwn yn wrthryfelgar, a dechreuais gamymddwyn ac ymhel â'r bobl anghywir. Gwnaeth fy ngofalwyr maeth a fy ngweithiwr cymdeithasol a minnau lunio cynllun i aros i mewn, i gadw fy mhen i lawr ac i geisio gwneud gwell fersiwn ohonof.

Mae ymuno â'r fyddin yn ymddangos yn gam mawr. Beth a roddodd y syniad ichi? Ac oni ydych chi braidd yn nerfus?

Gwnes ond dechrau mynychu'r ysgol yn iawn pan symudais i mewn at fy ngofalwyr maeth. Yn anffodus, nid oedd gen i ddigon o amser i ennill tir ar fy ngraddau, a phan ddywedodd fy ngofalwr maeth y gwir wrthyf am fy ngraddau rhagweledig, dechreuais feddwl am fy nyfodol, a chanolbwyntio ar beth roedd arnaf eisiau'i wneud nesaf. Dyna pam y dewisais y fyddin.

Mae fy ngofalwyr maeth o blaid imi ymuno â'r fyddin 100 y cant, ond gwnaethant hefyd ddweud y dylwn ddweud wrthynt os nad oes arnaf eisiau'i wneud fel bod gennym gynllun wrth gefn. Fy nghynllun wrth gefn yw byw'n annibynnol, fyddai'n golygu fy mod yn byw ar fy mhen fy hun ac yn gwneud beth mae arnaf eisiau'i wneud, pan fo arnaf eisiau'i wneud, ond dwi ddim yn credu mai dyna'r peth gorau imi rwan hyn. Yn y fyddin, mae ganddynt strwythur 24/7, maent yn rhoi to uwch eich pen a bwyd ichi, ac fe gewch deithio'r byd, sy'n freuddwyd i mi.



Rwyf yn eitha' nerfus am fethu fy hyfforddiant. Byddaf yn colli bod yma yn nhŷ fy ngofalwyr maeth ond rwyf eisoes wedi bod drwy'r profiad o ymadael â chartref o'r blaen, a gwn y gallaf fynd drwyddo eto.

Sut mae'ch profiad o gynllunio llwybr wedi bod?

Roeddwn newydd gyrraedd 16 oed pan darodd Covid, ac felly roedd yna ôl-groniad, ac felly ni ddechreuais ar fy nghynllun llwybr tan chwe mis ar ôl fy mhen-blwydd yn 16 oed. Rwyf yn pryderu am y dyfodol ac felly hoffaf gael cynllun wedi'i ysgrifennu ar bapur fel fy mod yn gwybod beth mae arnaf angen ei wneud.

Siaradais â'm gofalwyr maeth am beth roedd arnaf ei eisiau. Gwnaethant siarad â'm gweithiwr cymdeithasol a ddaeth draw i fy nhŷ pan oeddynt yn gallu (oherwydd Covid). Wedyn, cawsom gyfarfod, a gwnaethom drefnu fy nghynllun llwybr.

Mae fy nghynllun wedi fy helpu i wneud cyrsiau hyfforddi ar-lein - cwrs hylendid, sgiliau cyfathrebu, diogelu - fydd yn fy helpu i fod yn barotach am annibyniaeth rhag ofn na fyddaf yn mynd i'r fyddin.

Pa gyngor a roddech i bobl ifanc eraill sydd ar fin dechrau ar eu cynllun llwybr?

Ceisiwch gynnwys cyrsiau yn eich cynllun llwybr, a gwnânt ariannu aelodaeth o'r gampfa a gwersi gyrru.

Mae'n syniad da cael syniadau o beth mae arnoch eisiau'i wneud cyn ichi ddechrau ar eich cynllunio llwybr, neu fel arall ni fyddwch yn gwybod beth i'w roi yn eich cynllun.

Byddwn hefyd yn dweud y dylid bod yn agored a didwyll. Mae'r cynllun ar gael i'ch helpu, nid i'ch llesteirio.

Bod ar y llwybr cywir

Gall meddwl am ddod yn oedolyn annibynnol, a'r holl sgiliau ac arian y mae arnoch eu hangen i wneud hynny, fod yn wirioneddol gyffrous, ond gall hefyd fod braidd yn ddychryn...

...ac yn bendant bydd arnoch angen cael at yr holl gymorth a chefnogaeth sydd ar gael, ar hyd y daith.

Felly, beth yw cynllun llwybr?

Os ydych yn berson ifanc mewn gofal, mae'r cynllun llwybr yn ddogfen bwysig iawn sy'n dweud sut y bydd eich awdurdod lleol a gwasanaethau plant yn eich helpu ar eich taith i annibyniaeth. Mae'n amlinellu pa ddewisiadau sydd ar gael, beth mae arnoch eisau'i wneud, pa gymorth y mae arnoch ei angen a sut y bydd gwasanaethau plant yn darparu'r cymorth hwnnw tan rydych yn cyrraedd 21 oed. Gallwch hefyd ofyn am gyngor a chymorth ar ôl ichi gyrraedd 21, tan eich pen-blwydd yn 25 oed, os ydych yn dal mewn addysg neu hyfforddiant.

Dylai blwyddyn olaf eich cynllun llwybr ganolbwyntio ar yr ystod o gymorth y gallwch ei gael wrth baratoi am, ac wedyn byw'n annibynnol. Dylai hyn gynnwys: eich hawliau, rhestrau o bwy sydd 'na i'ch helpu, beth y gallant ei wneud a sut y gallwch gysylltu â nhw.



+ A wyddech chi?

Mae cynllun llwybr yn gynllun ynglŷn â'ch dyfodol ar ôl ymadael â gofal. Mae o i gyd yn ymwneud â chi a beth mae arnoch chi eisau'i wneud a sut y gall eich tîm eich cynorthwyo i wneud i hynny ddigwydd i chi.

Cynllun llwybr pwy ydyw, p'un bynnag?

Mae'n RHAID* i bron iawn bob person ifanc mewn gofal gael cynllun llwybr, fel arfer o'r adeg rydych yn cyrraedd 16 oed. Ac, yn anad dim, mae'n rhaid i'r cynllun ddweud beth mae arnoch CHI ei eisau, nid dim ond beth mae eraill o'ch amgylch yn ei gredu y dylai ddigwydd.

Os ydych chi:

- dros 26 oed;
- wedi bod mewn gofal am o leiaf 13 wythnos ers ichi gyrraedd 14 oed (nid oes yn rhaid i'r rhain fod i gyd gyda'i gilydd, ond ni allant gynnwys gofal seibiant);
- wedi bod mewn gofal am o leiaf un diwrnod ar ôl ichi gyrraedd 16 oed;

yna dylai'r swyddog adolygu annibynnol (IRO) ddechrau gweithredu yn ystod yr adolygiad cyntaf o blentyn sy'n derbyn gofal ar ôl ichi gyrraedd 16 oed, a chadarnhau pwy fydd yn eich cynnal wrth ddrafftio'ch cynllun, a drafodir yn eich holl adolygiadau.

*Mae'r gair RHAID hwn yn wirioneddol bwysig. Pan fydd dogfen y llywodraeth yn defnyddio'r gair 'rhaid', mae'n golygu bod yn RHAID iddo ddigwydd - nid yw'n ddewis. Felly, er enghraifft, pan fo Rheoliadau Ymadawyr â Gofal (Cymru) 2015 yn dweud bod yn RHAID i'r awdurdod lleol 'ymofyn a rhoi ystyriaeth i'ch barn', golyga hynny nad oes ganddynt ddewis, mae'n rhaid iddynt ei wneud. Ac os nad ydynt yn gwneud hynny, dylech eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt wneud!

+ Cyngor gwych

Cofiwch siarad bob amser â'ch gofawrwr maeth cyn siarad â'ch gweithwyr cymdeithasol neu'ch Cyngorydd Personol am yr hyn y mae arnoch ei eisau yn eich cynllun llwybr. Fe wnes i hynny a golygodd fod fy nghynllun llwybr wedi'i wneud yn wirioneddol gyflym oherwydd roedd fy ngofawrwr maeth yn gallu sicrhau ein bod ni oll yn gweithio tuag at yr un nodau.

Beth a ddylai fod yn fy nghynllun llwybr?

Bydd ar eich awdurdod lleol eisiau trosi'ch cynllun gofal a chymorth i fod yr hyn y bydd arnoch ei angen i weithio tuag at fyw'n annibynnol. Byddant yn cwblhau asesiad, ac wedyn caiff eich cynllun llwybr ei ddrafftio gan ddefnyddio canlyniad yr asesiad hwnnw. Dylai gynnwys yr holl bethau hyn:



Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Beth yw nodau'ch gyrfa a sut y cewch eich cynorthwyo i'w cyflawni nhw? A oes arnoch angen mynd ar gwrs neu a oes arnoch angen offer arbenigol? Beth am sgiliau ymarferol eraill, fel cynllunio bwydlen neu goginio?

Eich teulu a rhwydwaith cymdeithasol

Sut mae gwasanaethau plant am eich helpu i fagu a chadw perthnasoedd da â phobl sy'n bwysig ichi? Eich cyfeillion, teulu a gofalwyr maeth?



Arian

Dylai'ch cynllun llwybr ddweud beth sydd gennych hawl iddo, faint fydd yn ei gostio, a pha bryd y byddwch yn ei gael. Dylai fod yna gynllun hefyd ar gyfer cyllidebu a sut y gallech arbed arian ar gyfer y dyfodol.

Hunaniaeth

A oes arnoch angen unrhyw gymorth ychwanegol ynglŷn ag iaith, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol? A oes gennych yr holl ddogfennau adnabod y mae arnoch eu hangen (e.e. eich pasbort)? Ac a wyddoch sut i gael at y ffeiliau amdanoch?



Lle y byddwch yn byw

Dyma un mawr (gweler tudalen 8). Dylai'ch gwasanaethau plant asesu'ch lle byw cyfredol a'r dyfodol yn rheolaidd i weld a yw'n addas i chi - mae hynny'n golygu lleoliad, diogelwch, rhent a biliau. Os nad ydych yn fodlon ar le rydych yn byw, dywedwch hynny.

Iechyd

Mae hyn yn ymwneud â sut y bydd gwasanaethau plant yn eich cynorthwyo i fod yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol. Er enghraifft, a oes arnoch angen bod yn aelod o gampfa neu angen cymorth â mater iechyd?



Eich cynllun chi ydy o - meddiannwch o!

Mae cynllun llwybr yn ymwneud â'ch dyfodol CHI, ac felly mae arnoch angen sicrhau y gwrandewir ar eich barn a'ch syniadau... bydd eich cynghorydd personol yn eich cynorthwyo wrth ysgrifennu'r cynllun, ac felly mae arnoch angen sicrhau y byddant yn rhoi'ch barn chi wrth graidd yr holl opsiynau a phenderfyniadau.

Ond nid dim ond eich llais chi sydd angen ei glywed. Mae yna lawer o bobl eraill yn eich adnabod yn dda a bydd ganddynt syniad da am y cymorth y bydd arnoch ei angen i allu pontio i fyw'n annibynnol.

Dyma gyda phwy y gallai'ch awdurdod lleol siarad wrth ddrafftio'ch cynllun (ond nid heb eich bod chi'n cytuno yn gyntaf!):

- Eich rhieni.
- Pawb arall sydd â chyfrifoldeb rhieni amdanoch.
- Y bobl sy'n gofalu amdanoch o ddydd i ddydd (fwy na thebyg eich gofalwyr maeth).
- Eich clwb ieuencid, ysgol neu goleg.
- Pawb sy'n darparu gofal iechyd ichi.
- Eich cynghorydd personol, fydd yn eich cynorthwyo i gyrraedd y nodau yn eich cynllun llwybr.
- Eich swyddog adolygu annibynnol (IRO), sy'n cadeirio'ch holl adolygiadau tra eich bod yn dal mewn gofal.

Amser adolygu

Dylid adolygu'ch cynllun llwybr o leiaf bob chwe mis, ond gallwch ofyn am iddo gael ei adolygu unrhyw adeg, yn enwedig os oes yna newid mawr yn eich bywyd. A pheidiwch ag anghofio sicrhau eich bod yn cael copi o'r cynllun sydd wedi'i ddiweddarau fel eich bod yn gallu gwirio bod pawb yn cadw ato.

+ Angen mwy o gymorth?

Os nad ydych yn fodlon â'r cymorth rydych yn ei gael, neu os credwch na wrandewir arnoch, yna gallai eiriolwr eich helpu. Os oes arnoch angen eiriolwr, cysylltwch â:


NYAS Cymru **0808 808 1001** neu help@nyas.net

Neu

Tros Gynnal Plant **0800 111 6880** neu admin@tgpcymru.org.uk

Os yw'n haws, gall eich gofalwr maeth gysylltu â nhw yn gyntaf, ond bydd arnynt eisiau siarad â chi i sicrhau bod eich barn a'ch safbwyntiau'n cael eu clywed.





CNi fydd hi'n hir tan y byddaf yn cyrraedd 16 oed, ac rwyf yn clywed yn gyson gan fy nghyfeillion mewn gofal fod ganddynt gynghorydd personol. A fyddaf i'n cael cynghorydd personol, a beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn cyrraedd 18 oed ac yn ymadael â gofal? Pwy fydd yn fy helpu os caf broblem, a phwy fydd yn cymryd yr awenau i sicrhau bod fy nghynllun llwybr yn cael ei gyflawni?

Dywed Matt: Llongyfarchiadau ar gyrraedd 16! Rydych yn gywir y dylid rhoi cynghorydd personol ichi pan ydych yn 16 oed, fydd yn gweithio ochr yn ochr â'ch gweithiwr cymdeithasol tan y cyrhaeddwch 18 oed. Pan gyrhaeddwch 18 oed, byddwch yn ymadael â gofal (os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes), ac felly ni fydd gennych weithiwr cymdeithasol mwyach.

Peidiwch â gofidio, serch hynny. Yr adeg honno, bydd eich cynghorydd personol yn dod yn weithiwr cymdeithasol ichi ac ef/hi fydd y person sy'n adolygu'ch cynllun llwybr ac yn eich cynorthwyo i gael y cymorth a'r gefnogaeth y mae arnoch eu hangen i bontio i oedolaeth ac i gyrraedd eich nodau. Siaradwch â'ch cynghorydd personol am ba mor aml rydych yn cyfarfod i drafod eich cynllun llwybr a'r ffordd orau iddynt gysylltu â chi i'w gwneud hi'n hawdd cadw mewn cysylltiad.

Cyrraedd 16

GOFYNNNOCH CHI, ATEBASOM NINNAU

Mae Matt yn ôl i helpu â'ch problemau



Gadael ysgol

CRwyf newydd adael ysgol ac rwyf ar fin dechrau ar gwrs mecaneg ceir. Mae fy ngofalwyr maeth yn wirioneddol gefnogol, ac mae'n rhywbeth roedd arnaf bob amser eisiau'i wneud, ac rwyf yn llawn cyffro amdano, ond rwyf yn wirioneddol bryderus am p'un a allaf fforddio'r holl offer y bydd arnaf angen eu prynu. A oes yna unrhyw gymorth ar gael imi?

Dywed Matt: Pan ydych mewn gofal, yr awdurdod lleol yw'ch 'rhiant corfforaethol'. Golyga hyn fod Llywodraeth Cymru'n dweud y dylech, fel ymadawr â gofal, ddisgwyl yr un lefel o ofal a chymorth y byddai pobl ifanc eraill yn eu disgwyl gan riant rhesymol. Maent hefyd yn disgwyl y dylai'r awdurdod lleol sicrhau y rhoddir yr holl gyfleoedd ichi y bydd arnoch eu hangen i ysgwyddo cyfrifoldebau bod yn oedolyn.

Felly, dylech wneud rhestr o'r holl offer (ac unrhyw beth arall) y mae arnoch ei angen, yn cynnwys faint maent yn ei gostio. Wedyn, dylech roi'r rhestr i'ch gweithiwr cymdeithasol neu'ch cynghorydd personol, a gofyn iddynt drefnu taliad am yr holl bethau hynny. Yn ddelfrydol, byddai hyn wedi bod yn eich cynllun llwybr, ond peidiwch ag anghofio y gellir diwygio ac adolygu'ch cynllun mor aml ag y bo angen. Byddai dechrau ar gwrs newydd yn amser da i wneud hynny.

CRwyf yn clywed yn gyson gan fy nghyfeillion sydd hefyd mewn gofal maeth bod ganddynt eisoes gynllun llwybr. Rwyf bron yn 17 oed, ac rwyf yn credu y dylai fod gen innau hefyd gynllun llwybr. A yw'n bwysig nad oes gen i gynllun, a sut rwyf i fod i gael cynllun?

Dywed Matt: Ydyw, mae o'n wirioneddol bwysig, gan y bydd yn amlinellu beth y mae arnoch eisiau'i weld yn digwydd wrth ichi symud i fyd oedolion, a pha adnoddau y mae ar wasanaethau plant a'ch awdurdod lleol angen eu rhoi ar waith i'ch cynorthwyo i wireddu'ch dyheadau.

Peidiwch â phryderu, serch hynny - nid yw'n rhy hwyr i ddechrau ar eich cynllun llwybr. Gofynnwch i'ch gweithiwr cymdeithasol neu'ch cynghorydd personol ddechrau gweithio ar eich asesiad anghenion a ddefnyddir wedyn i ddrafftio'ch cynllun.

Gallech ganfod fod eich cynllun llwybr wedi'i lunio heb i chi fod hyd yn oed yn gwybod. Nid yw hynny'n iawn! Mae arnoch angen egluro wrth eich gweithiwr cymdeithasol neu'ch cynghorydd personol nad eich cynllun chi ydy o, a bod arnoch eisiau iddo gael ei ailysgrifennu i wneud iddo fod yn gynllun i CHI. Os ydych yn wirioneddol yn methu â chael pobl i wrando arnoch, gallech gael eiriolwr a all eich cynorthwyo i fynd â hyn ymhellach (gweler tudalen 5).



Fy nghynllun llwybr

A oes gennych broblem? Fe gewch ateb y gallwch ymddiried ynddo, yn y fan hon.

Fy lle fy hun



CRwyf ar fin dechrau gweithio ar fy nghynllun llwybr ac rwyf wedi penderfynu bod arnaf eisiau byw yn fy lle fy hun cyn gynted ag y cyrhaeddaf 18 oed. Rwyf ar dân i fod yn gallu gwneud fy mhethau fy hun pan fyddaf eisiau gwneud. Ond rwyf yn pryderu am ddweud wrth fy ngofalwyr maeth oherwydd fy mod yn eu gwirioneddol hoffi nhw. Helpwch, os gwelwch yn dda.

Dywed Matt: Mae'n dda bod arnoch eisiau bod yn annibynnol, ond mae llawer o bobl ifanc yn canfod bod byw'n annibynnol yn 18 oed yn eitha' anodd, ac felly mae'n bendant yn werth ystyried opsiynau sy'n gerrig llamu i fyw'n annibynnol. Os ydych yn gallu cyddynnu'n dda â'ch gofalwyr maeth, ac maent yn fodlon ichi aros, pam na wnewch feddwl am Pan Fydda i'n Barod, gan y bydd hynny'n rhoi'r amser a'r lle ichi ddatblygu'r sgiliau a'r profiad y mae arnoch eu hangen. Opsiynau eraill i'w trafod â'ch gweithiwr cymdeithasol yw llety â chymorth neu Cysylltu Bywydau.

Os ydych yn penderfynu gadael, bydd eich gofalwyr maeth, rwy'n sicr, yn drist o'ch gweld yn mynd, ond bydd arnynt eisiau cynnig cymaint o gymorth a chyngor ichi ag y gallant i'ch helpu i wneud y symudiad yn llwyddiannus. Felly, peidiwch â bod ofn siarad â nhw a dweud wrthy'n nhw beth mae arnoch ei angen, ac ystyriwch o ddifri' y cyngor sydd ganddynt i'w gynnig.

Y Gwir am Gartref



Nid oes llawer o bobl ifanc yn barod i fyw'n annibynnol pan fônt yn cyrraedd 18 oed, ac felly mae meddwl am ble rydych am fyw wedi ichi gyrraedd 18 fwy na thebyg yn un o'r penderfyniadau mwyaf y mae'n rhaid ichi'i wneud wrth ichi ymadael â gofal. Ond peidiwch â phryderu, mae yna lawer o gymorth a chefnogaeth ar gael ichi.

Mae yna lawer o opsiynau, yn amrywio o barhau i fyw gyda'ch gofalwyr maeth o dan drefniant Pan Fydda i'n Barod (rhywbeth sy'n bendant yn werth meddwl amdano, hyd yn oed os ydych yn ffansio'r syniad o fyw ar eich pen eich hun) neu lety â chymorth, i gael eich lle eich hun neu ddychwelyd at eich teulu biolegol. Nid yw pob un o'r opsiynau ar gael ym mhob ardal, ac felly dylech ofyn i'ch gweithiwr cymdeithasol neu'ch cynghorydd personol roi'r wybodaeth ichi ac egluro'ch holl ddewisiadau ichi.



Pan Fydda i'n Barod

I lawer o bobl ifanc, mae dal i fyw gyda'u gofalwyr maeth ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed yn ddewis gwirioneddol wych. Os oes arnoch chi a'ch gofalwyr maeth eisiau hyn, yna mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol wneud iddo ddigwydd. Gallwch aros gyda'ch gofalwyr maeth o dan drefniant Pan Fydda i'n Barod tan y byddwch yn 21 oed, neu hyd at 25 oed os ydych yn cwblhau rhaglen addysg neu hyfforddiant y cytunwyd arni. Golyga hyn na fydd yn rhaid ichi bryderu am symud tra eich bod yn ymdrin â phethau pwysig eraill, megis mynd i goleg neu ddechrau ar swydd.

Os ydych yn penderfynu mynd am Pan Fydda i'n Barod, bydd eich gweithiwr cymdeithasol, eich gofalwr maeth a chithau'n cwblhau trefniant Cyd-fyw sy'n gytundeb ynglŷn â'r nodau y mae arnoch eisiau'u cyflawni, y ffiniau a'r rheolau o gyd-fyw mewn lleoliad Pan Fydda i'n Barod.

Profiad bywyd go iawn

Roeddwn yn ddigon ffodus i ddal i fyw gyda fy ngofalwyr maeth. Dyma oedd fy nghynllun llwybr. Pe na bae am fy nghynllun llwybr, a minnau'n eistedd i lawr gyda'm gofalwyr maeth a'm gweithiwr cymdeithasol, fe fuaswn wedi cael fy rhoi mewn lle byw'n annibynnol ar fy mhen-blwydd yn 18 oed. Nid oeddwn yn barod i ymdrin â hynny ar yr adeg honno.

+ Cyngor gwych

Os ydych yn ymadael â lle'ch gofalwyr maeth, yna cyn ichi symud i rywle newydd, mae ar wasanaethau plant angen:

- rhoi ystyriaeth i'ch anghenion a'ch barn am ble mae arnoch eisiau byw;
- ystyried sut mae'r lleoliad yn diwallu'ch anghenion a materion diogelwch y llety newydd, yn ogystal â ph'un a allwch fforddio costau rhedeg y lle;
- trefnu ichi ymweld â'r llety newydd.

Mae ar wasanaethau plant angen bod yn rhesymol wrth benderfynu gyda chi ymhle rydych yn mynd i fyw - ond nid yw hyn yn golygu y byddant yn cytuno â chi bob amser!



+ Cyngor gwych

Mae gan bob awdurdod lleol weithwyr adran tai sy'n arbenigwyr mewn trin a thrafod materion tai ar gyfer pobl ifanc. Canfyddwch enw'r person sy'n gyfrifol am eich helpu â'ch materion tai. Os ydych yn cael trafferth gwneud hynny, gofynnwch i'ch gweithiwr cymdeithasol neu i'ch cynghorydd personol ganfod ichi.

I gael cyngor a chymorth ychwanegol, ffoniwch y Llinell Gymorth Cyngor ynglŷn â Thai ar **08000 495 495** neu ewch i sheltercymru.org.uk

Mae'r cwbl yn ymwneud â hawliau

Darren Mutter yw Pennaeth Gwasanaethau Plant yng Nghyngor Sir Benfro. Cawsom sgwrs ag ef am gynllunio llwybr a pham mae cael cynllun mor bwysig.



Helô, Darren. Da siarad â chi. A allwch ddweud ychydig wrthym andanoch eich hun?

Rwyf wedi bod yn weithiwr cymdeithasol ers dros 20 mlynedd ac rwyf yn wastad wedi gweithio â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Rwyf wedi cael nifer o rolau yn ymwneud â chynllunio llwybr, yn cynnwys rheoli tîm ymadawyr â gofal, ac rwyf yn awr yn Bennaeth Gwasanaethau Plant. Mae'n swydd â chyfrifoldeb enfawr, ond mae'n wir ffrainc, ac rwyf yn ei charu!

Sut y byddech yn disgrifio beth yw cynllun llwybr i berson ifanc?

Mae'n gynllun ar gyfer eich dyfodol. Mae gennych yr hawl i gyfrannu tuag at eich cynllun, ac felly dylech ddweud wrth weithwyr cymdeithasol a chynghorwyr personol beth mae arnoch ei eisiau ar gyfer y dyfodol, a dylem fod yn eich cynorthwyo i gyflawni hynny cyn belled â phosibl. Eich cynllun yw'ch dogfen – dylai ddweud: 'Dyma fy nghynllun. Mae arnaf eisiau hyn...'. Mae hefyd yn gcontract oherwydd bod yn rhaid inni roi'n henw wrth yr hyn y byddwn yn ei wneud i'ch cynorthwyo, ac os na wnawn ni hynny, gallwch chithau grybwyll y cynllun a'n hatgoffa o'r hyn y gwnaethom addo'i wneud.

Dylech hefyd gofio y dylai'ch cynllun, os ydych yn newid eich meddwl am eich dyfodol, newid, a bydd sut rydym yn eich cynorthwyo hefyd yn newid.

Clywsom gan rai pobl ifanc nad oes ganddynt gynllun llwybr. A yw hynny o bwys, a gredwch?

Mae o'n wirioneddol bwysig. Os nad oes gennych gynllun, mae'n golygu nad eglurwyd eich hawliau ichi. Dylech wybod beth sydd gennych yr hawl i'w gael, a bod gennych hawl i ddweud beth mae arnoch ei eisiau ar gyfer eich dyfodol. Os nad oes gennych gynllun, yna mae'ch llais yn cael ei ddistewi.

Gall cynllun llwybr wneud gwahaniaeth mawr ichi. Er enghraifft, gall amlinellu sut y cewch eich cynorthwyo i fynd drwy brifysgol neu i fyw'n annibynnol, neu gallai sicrhau y cewch eich helpu i ddsygu gyrru fel ei bod hi'n haws canfod swydd.

Sut y credwch y gellir gwella cynllunio llwybr ledled Cymru?

Nid wyf yn neilltuol o hoff o'r ymadrodd 'rhianta corfforaethol', ond rwyf yn hoff o'r syniad ohono – os oes gennych brofiad o ofal, mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol weithredu fel eich rhiant a derbyn yr holl bethau sy'n gysylltiedig â hynny, megis rhoi cefnogaeth, rhoi cyngor am arian, rhoi arweiniad, bod ar gael a gwrando arnoch. Mae beth mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud fel rhieni corfforaethol wedi'i nodi'n eglur iawn yn y gyfraith, nid oes gennym esgus dros beidio â'i wneud. Mae'n ymwneud â sicrhau bod pob rhan o awdurdod lleol, nid dim ond gwasanaethau plant, yn gwybod pa hawliau sydd gan bobl ifanc a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i ddiwallu anghenion pobl ifanc. Ac mae ar bobl fel y fi, mewn uwch-swyddi, angen bod yn llysgenhadon ar gyfer codi'r ymwybyddiaeth hon.

Pa gyngor a roddech i berson ifanc sydd ar fin dechrau ar eu cynllun llwybr?

Byddwch yn onest a pheidiwch â bod ofn dweud beth mae arnoch ei eisiau. Heriwch a gofynnwch gwestiynau. Eich cynllun chi ydy o, ac mae'n rhaid iddo ddweud beth mae arnoch chi eisiau iddo ddweud.

Eisiau gwybod mwy am hawliau plant?

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb pwysig gan wledydd sydd wedi addo diogelu hawliau plant. Mae'n egluro pwy yw plant, eu holl hawliau, a chyfrifoldebau llywodraethau. Ewch i www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/ am fwy o wybodaeth.

Rhestr wirio'ch cynllunio llwybr

Dyma 10 cwestiwn i'w gofyn i chi'ch hun i sicrhau nad yw'r cynllun ond yn rhywbeth sy'n digwydd, ond mai hwn yw'r cynllun iawn i chi a'ch dyfodol.

1. A ddylwn i fod wedi dechrau ar fy nghynllunio llwybr?

Os ydych yn 16 oed neu'n hŷn, dylai fod gennych gynllun llwybr (gweler tudalen 5).

2. A wrandewir arnaf i?

A ydw i wedi cael llawer o gyfle i ddweud wrth fy nghynghorydd personol neu fy ngweithiwr cymdeithasol beth yw fy nghynlluniau ar gyfer y dyfodol, a pha gymorth a gredaf y gallai fod arnaf ei angen i wireddu'r cynlluniau hynny?

3. A ydw i'n gwybod i ble y gallaf fynd am gymorth os credaf na wrandewir arnaf?

Gweler tudalen 5.

4. A oes gennyf yr holl wybodaeth y mae arnaf ei hangen i deimlo'n wybodus ac i wneud penderfyniadau am fy nyfodol?

Os nad oes gennych, gofynnwch i'ch gweithiwr cymdeithasol neu'ch cynghorydd personol.

5. A yw fy ngofalwyr maeth yn gysylltiedig â fy nghynllun, fel eu bod yn gallu lleisio barn drosof?

Os nad yw'ch gofalwyr maeth, pwy arall a allech ofyn iddynt leisio barn drosoch?

+ Cyngor gwych

Mae'ch cynllun llwybr yn ddogfen gyfreithiol. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi copi'au ichi o:

- canlyniadau'r asesiad o'ch anghenion;
- y cynllun llwybr;
- unrhyw adolygiad o'ch cynllun llwybr.

Ac mae'n rhaid iddynt sicrhau bod yr holl ddogfennau hyn wedi'u hegluro ichi mewn ffordd rydych yn ei deall.

+ Cyngor gwych

Wrth ichi ddiwygio'ch cynllun, sicrhewch eich bod yn anfon e-bost at eich gweithiwr cymdeithasol neu'ch cynghorwr personol (yn ogystal â siarad â nhw) ynglŷn â rhywbeth sy'n ymwneud â'ch cynllun llwybr, yna bydd yr e-bost yn dystiolaeth os bydd arnoch ei angen.

6. A ofynnwyd i'r holl bobl iawn am ba gymorth y bydd arnaf ei angen wrth imi symud i fod yn annibynnol?

Dylasid fod wedi gofyn iddynt.

7. A yw fy nghynllun yn ymdrin ag iechyd, addysg, hyfforddiant, sgiliau, cyflogaeth, arian, hunaniaeth, perthnasoedd a lletyau?

Fe ddylai!

8. A yw fy nghynllun yn dweud beth ydw i am iddo'i ddweud go iawn? Os nad ydyw, a wn i beth i'w wneud?

Dylech ond llofnodi'ch cynllun pan ydych yn fodlon â'r hyn y mae'n ei ddweud.

9. A oes gen i gopi o fy nghynllun?

Dylai fod gennych - a pheidiwch ag anghofio gofyn am gopi wedi'i brintio os hoffech gael copi felly.

10. A ydw i'n gwybod pa bryd y bydd y cynllun yn cael ei adolygu?

Dylai hyn ddigwydd o leiaf bob chwe mis.



COFIWCH: Dyma'ch cynllun llwybr CHI, ac felly mae'n rhaid iddo ddweud beth mae arnoch chi'i eisiau a sut mae arnoch chi eisiau cael eich cynorthwyo.